



Annwyl gyd rieni/warchodwyr,

Hoffech chi gerdded yr olygfa sydd i'w chael o Ysgol Tryfan?  
Dyma fydd yr ail daith yn y gyfres, ac fe fyddwn yn codi arian tuag at Sioe Gerdd  
arloesol Ysgol Tryfan, a fydd yn digwydd trwy *Pontio* ym mis Rhagfyr.

### Pontio Golygfa Tryfan (Rhan 2: 12/07/14)

Cyfarfod yn Llanberis am 10.40, tu allan i Spar.

Taith gylch eithaf heriol dros dri chop; Moel Eilio, Foel Gron a Moel Goch.

### Sut i gyrraedd:

- i. Gallwch ddal bws o Fangor i Lanberis – bws Padarn rhif 85; sydd yn gadael o'r cloc am 9:54 ac yn cyrraedd Llanberis am 10:35.
- ii. Gallwch ddal bws o'r Felinheli i Gaernarfon i Lanberis - bws Arriva rhif 5 neu X5 i Gaernarfon cyn newid i fws Padarn rhif 88 oddi yno am 10:00, i gyrraedd Llanberis am 10:21.
- iii. Os ydych am ddod mewn car, parciwch yn Neuadd Gymunedol Llanberis (£4), neu ym maes parcio Gwynedd ger y Llyn/Mynydd Gwefru.

Hyd y daith	7.5 milltir/12 km
Amser teithio	4 awr (heb gynnwys amser cinio)
Cinio	Bydd angen pecyn bwyd a diod
Offer	Sach gefn a dillad rhag y glaw

Oherwydd natur gyfnewidiol y tywydd, rhag ofn bod angen cysylltu i ohirio hoffem wybod pwy sydd am fynychu a chael rhif ffôn cyswllt.

### **Dylid dychwelyd y bonyn i'r ysgol erbyn y 8fed o Orffennaf os gwelwch yn dda.**

Edrychaf ymlaen at eich gweld ar y diwrnod.

Angharad Harris

ar ran CrhA Ysgol Tryfan


Rydym am ddod ar y daith gyda \_\_\_\_\_ oedolyn a \_\_\_\_\_ person ifanc.

Enw'r cyswllt os bydd angen gohurio yw \_\_\_\_\_ a'r rhif ffôn cyswllt yw \_\_\_\_\_

Mewn achos o argyfwng ar y daith, dylech gysylltu gyda \_\_\_\_\_ (enw) ar y rhif canlynol \_\_\_\_\_

\*Ni allwn fod yn gyfrifol am blant/pobl ifanc heb fod rhiant/gwarchodwr yn bresennol.

\*Bydd gan yr arweinydd git cymorth cyntaf ac offer brys.



Manylion y daith.

Fel y gwelwch, mae hi'n daith eithaf hir ond yn addas i blant.

Ar ôl cyrraedd copa Moel Eilio mae'r codiad tir yn raddol am y ddau gopa nesaf, cyn disgyn yn eithaf serth am fwllch Maesgwm. Bydd angen esgidiau cadarn, digon o ddŵr, a chofiwch ddod ag unrhyw feddyginiaeth sydd ei angen rhag ofn gyda chi.